# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Wedi ei ariannu trwy raglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaeth Cynghori o fewn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Eurig Jenkins

Sweden, Denmarc ac Iwerddon

Popeth sy'n gysylltiedig â llaeth

28ain Tachwedd – 12fed Rhagfyr 2017

10fed-11eg Ionawr 2018

## 1 Cefndir

Roeddwn yn awyddus i weld systemau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir gartref. Gartref, rwy'n rhedeg buches o 400 o wartheg godro ar system lloia mewn bloc 64 diwrnod yn y gwanwyn. Rydym hefyd yn anelu i bori'r gwartheg ar system bori cylchdro estynedig. Roeddwn yn awyddus i brofi cymaint â phosib o fewn y sector llaeth yn fy ngwledydd dewisedig.

## 2 Amserlen

Ym mis Tachwedd teithiais i Gothenburg, Sweden i ymweld Losin a Brigitta Borkesson, cysylltiadau yr oeddwn wedi eu hennill trwy ffrind. Roeddent yn westeiwyr ardderchog a threuliais wythnos ar eu fferm, gan odro unwaith y diwrnod yn gyfnewid am lety. Y prif fusnes oedd godro buches o 60 o wartheg Holstein mewn uned eithaf newydd ar gyrion Gothenburg. Gan fod arhosfan bysiau wedi'i leoli ger giatiau'r fferm gyda 4 bws yn pasio bob awr, roeddent wedi cymryd mantais o'r cyfle i werthu llaeth crai o beiriant gwerthu hunanwasanaeth a oedd ar agor rhwng 5yb-10yh, 365 diwrnod y flwyddyn. Roeddent hefyd yn rhedeg busnes grutio a swch eira yn ogystal â thorri glaswellt a gwarrau yn ystod yr haf, gyda'r gyrwyr tractor yn gweithio tua 2500 awr y flwyddyn.

Wedi hyn bûm yn ymweld nifer o ffermydd o unedau 40 o wartheg i unedau 900 o wartheg a chymysgedd o ffermydd ar osod, ffermydd preifat a ffermydd oedd yn eiddo i'r llywodraeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ffermydd yn tyfu ŷd eu hunain a oedd yn cael ei fwydo'n ôl i'r gwartheg ac, o ganlyniad, nid oedd y rhan fwyaf o'r ffermydd yn gwybod faint o ddwysfwyd oedd

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

eu gwartheg yn ei dderbyn. Roeddent yn prynu ŷd i'w fwydo yn y parlwr yn unig. Roedd y rhan fwyaf o'r gwartheg yn cael eu cadw dan do am 7 mis o'r flwyddyn. Yn y bôn, roeddent yn ffermwyr âr a oedd yn bwydo'u hanifeiliaid eu hunain ac o ganlyniad yn cynhyrchu llawer o laeth.

Ar gyfer ail ran fy nhaith, cymerais fferi i Ddenmarc lle bûm yn aros gyda Morten Mejlvang a'i deulu. Roedd e'n rhedeg un o'r ffermydd gorau yn y wlad o ran perfformiad ariannol ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael mynd gyda Morten i gyfarfod â'i gyfrifydd ar yr ail ddiwrnod. Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynais i'r cyfrifydd os oedd Morten yn ffermwr cyffredinol a'i ateb oedd nag oedd yn wir! Gan fy mod yn awyddus i ddysgu mwy, eglurodd y ddau ymhellach yn Saesneg ac arhosodd rhai pwyntiau allweddol yn y meddwl:

- Maint y busnes oedd buches o 370 o wartheg yn lloia mewn bloc
- Gwartheg croesfrid gyda throsiant porthiant i laeth sylweddol
- Roedd uchafbwynt cynnyrch oes a chynnyrch soledau llaeth y gwartheg o fewn y 5% uchaf yn y wlad
- Costau isel iawn ar y cyfan e.e. milfeddygol, porthiant, peiriannau a chytundebau
- Yr unig gost oedd yn uwch na'r arferol oedd llafur cyflogedig ond roeddent o'r gred bod llafur da yn cael effaith uniongyrchol ar les a chyflwr y gwartheg yn ogystal â glanweithdra'r fferm ar y cyfan a fyddai'n sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer y busnes

Wedi hyn, teithiais i'r de i ymweld â Jens a Soren Madsen a oedd yn rhedeg buches o 600 o wartheg Jersey yn lloia mewn bloc. Roedd y gwartheg yn cael eu godro 3 gwaith y diwrnod ac yn yfed 6 litr o ddŵr y diwrnod. Roedd y gwartheg yn cyflawni graddau diet DM da o 28% trwy gydol y flwyddyn ac roedd cyfartaledd y fuches yn gyffredinol yn 900l, sy'n cyfateb i 11,247 litr mewn litrau safonol.

Erbyn i mi gyrraedd gartref roeddwn wedi gweld dros 4,000 o wartheg godro ond y peth y mwynheais fwyaf oedd ymgysylltu â'r teuluoedd a bod yn falch o'r hyn yr wyf yn ei gyflawni gartref.

Ym mis Ionawr, mynychais y *Positive Farming Conference* yn Iwerddon. Roedd y gynhadledd wedi'i hanelu at bobl oedd yn angerddol am wartheg pori. Roedd calibr y siaradwyr yn ardderchog a chefais fy annog i drefnu olyniaeth ar y fferm gartref. Mae holl aelodau'r teulu bellach yn glir o ran pob agwedd o'r trefniadau olyniaeth. Mae pobl yn mynychu'r gynhadledd hon oherwydd eu bod nhw wir eisiau bod yn bresennol!

# 3 Camau Nesaf

Y peth mwyaf gwerthfawr a ddysgais o'r daith oedd: Dŵr = Llaeth = Elw. O ganlyniad i'r daith, rwy'n bwriadu gwella ansawdd y dŵr ar fy fferm gyda'r gobaith o gynyddu faint o ddŵr y mae'r gwartheg yn ei yfed a chynhyrchu mwy o laeth. Mae magu stoc ifanc yn cael ei esgeuluso'n aml gan eu bod yn tueddu i dderbyn y porthiant gwaethaf trwy gydol y flwyddyn ond dylai bwydo porthiant o ansawdd gwell pan mae'r gwartheg yn ifanc gynyddu cynhyrchiad oes yr anifail hwnnw.

# 4 Prif Negeseuon i'r Diwydiant

1. Mae ansawdd dŵr yfed da byw yn cael ei esgeuluso'n aml
2. Cymysgwch gyda phobl bositif ac o'r un anian
3. Mae rheoli staff ar unedau mwy yn bwysicach na rheoli'r gwartheg eich hunan
4. Gall dysgu o gamgymeriadau pobl eraill fod yn beth cadarnhaol
5. Ewch i deithio pan gewch y cyfle
6. Peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau





